# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 8 Chwefror 2024

Amser: 10.40 - 14.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13695

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Delyth Jewell AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Joel James AS (yn lle Tom Giffard AS)<br>Llyr Gruffydd AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | Y Farwnes Deborah Bull, Ty'r Arglwyddi<br>Eluned Haf, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru<br>Tom Kiehl, UK Music<br>Ruth Cocks, British Council Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Lleu Williams (Clerc)<br>Haidee James (Ail Glerc)<br>Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)<br>Anisah Johnson (Dirprwy Glerc)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol) |

| | |
|---|---|
| | Sara Moran (Ymchwilydd)<br><br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AS a Tom Giffard AS, ac roedd Joel James AS yn bresennol fel dirprwy ar ran Tom Giffard AS.

## 2 Diwylliant a’r berthynas newydd â’r UE: sesiwn dystiolaeth gyda deddfwrfeydd eraill (1)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Farwnes Bull.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Kevin Brennan AS.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gyngor Celfyddydau Cymru a National Theatre Wales ynghylch yr Adolygiad Buddsoddi.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch effaith y gostyngiadau yn y gyllideb ar gyrff hyd braich.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ynghylch y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 5, 6, 7, 8 a 10 yn ystod y cyfarfod heddiw

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE: trafod y tystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad: trafod y materion allweddol

6.1 Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol cyn cytuno i ddychwelyd at y pwnc yn y cyfarfod nesaf, a drefnwyd ar gyfer 28 Chwefror 2024.

## 7 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol: trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft cyn cytuno arno.

## 8 Trafod y flaenraglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn 2024

8.1 Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn 2024 cyn cytuno arni.

## 9 Diwylliant a’r berthynas newydd â’r UE: sesiwn dystiolaeth gyda chyrff ambarél (2)

9.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr Celfyddydau Rhyngwladol Cymru; UK Music; a British Council Cymru.

9.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at UK Music i ofyn am ragor o wybodaeth yn gysylltiedig â’r sesiwn.

## 10 Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE: trafod y tystiolaeth

10.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.